# Bwletin Awdurdod S4C
## Cyfarfod 324 – 17 Gorffennaf 2009
## S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2009.

### 1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 323
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 323.

### 2. Adroddiad y Cadeirydd
Nododd y Cadeirydd fod yr Adroddiad Blynyddol wedi ei gyflwyno i'r Senedd ac wedi ei gyhoeddi yn unol â'r amserlen ar ddydd Iau 25 Mehefin.

Roedd y Cadeirydd ac IJ wedi cyfarfod gyda Peter Hain AS yn ddiweddar. Cafwyd cyfle i esbonio rhagor iddo am waith S4C.

Nododd y Cadeirydd y byddai'n mynychu'r Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol dros yr haf.

### 3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Nododd y Prif Weithredwr mai dyma'r cyfarfod olaf cyn cychwyn y newid i ddigidol yng Nghymru. Esboniodd y byddai trosglwyddydd Mynydd Cilfái yn cychwyn y newid ym mis Awst, gyda'r newid yn effeithio S4C ar Freeview ledled Cymru ar 9 Medi. Roedd y cynllun cyfathrebu digidol yn weithredol ac ar darged.

Esboniodd IJ fod gwaith paratoi a chynllunio ar y gweill a bod S4C yn gwneud popeth y gall wneud fel cyflogwr i baratoi ar gyfer pandemig ffliw moch.

Esboniodd IJ bod S4C wedi ennill gwobr Canmoliaeth Uchel yn y categori busnes ar gyfer cwmnïau bach/canolig yng ngwobrau Learndirect yn ddiweddar. Dyfarnwyd gwobr y bartneriaeth ysgol/fusnes orau i S4C, Tinopolis ag Ysgol Dyffryn Aman am brosiect Meddwl am Fathemateg a noddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch.

### 4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad a Chyflwyniad Ymchwil
- Adroddiadau Cwynion a Chydymffurfiaeth